



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor  
Llywio'r Gymraeg

Dyddiad: Dydd Mercher, 3  
Gorffennaf 2019

Rhif Union: 01824 712589

ebost: democratic@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWIO'R GYMRAEG, DYDD MAWRTH, 9 GORFFENNAF 2019** am **10.00 am** yn **YSTAFELL GYNADLEDDA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democraidaidd

## AGENDA

### 1 YMDDIHEURIADAU

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD (Tudalennau 3 - 4)

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

### 3 MATERION BRYN FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion bryn yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

### 4 COFNODION (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y pwyllgor a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2019 (gweler yn amgaaedig).

## **5 DIWEDDARIAD AR EISTEDDFOD YR URDD**

Derbyn cyflwyniad gan Arweinydd Tîm – Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchoedd ar Eisteddfod yr Urdd.

## **6 ADRODDIAD BLYNYDDOL I GOMISIYNYDD Y GYMRAEG** (Tudalennau 13 - 14)

Derbyn adroddiad gan Arweinydd Tîm – Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchoedd ar yr Adroddiad Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg (gweler yn amgaeedig).

## **7 PAPUR BRIFFIO AR SEFYDLIADAU PARTNER** (Tudalennau 15 - 22)

Derbyn diweddariad gan Arweinydd Tîm – Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchoedd ar y Papur Briffio ar Sefydliadau Partner (gweler yn amgaeedig).

## **8 POLISI ENWAU A RHIFAU STRYDOEDD DRAFFT** (Tudalennau 23 - 46)

Derbyn adroddiad gan y Gweinyddwr Perfformiad a Systemau ar y Polisi Enwau a Rhifau Strydoedd Drafft (gweler yn amgaeedig).

## **9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL** (Tudalennau 47 - 48)

Ystyried rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor (gweler yn amgaeedig).

## **MEMBERSHIP**

### **Y Cynghorwyr**

Ellie Chard  
Ann Davies  
Tony Flynn  
Huw Hilditch-Roberts  
Arwel Roberts

Anton Sampson  
Tony Thomas  
Graham Timms  
Joe Welch  
Emrys Wynne

### **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

**Cyngor Sir Ddinbych**

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR LLYWIO'R GYMRAEG

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywio'r Gymraeg a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 19 Mawrth 2019 am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Huw Hilditch-Roberts, Arwel Roberts, Anton Sampson, Graham Timms (Cadeirydd), Joe Welch ac Emrys Wynne.

**Arsylwr** – y Cynghorydd Meirick Davies

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau (NS); Arweinydd Tîm – Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchoedd (GW); Swyddog yr Iaith Gymraeg (MC); Swyddog Moderneiddio Addysg (IBR); Rheolwr y Rhaglen Moderneiddio Addysg (JC) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ).

## MATERION O HYSBYSIAD

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion a phawb a fu wrthi'n trefnu a chymryd rhan yn Eisteddfod gyntaf Staff y Cyngor ar 1 Mawrth 2019, a fu'n llwyddiant ysgubol. Rhoes longyfarchiadau hefyd i Gymru am ennill y Gamp Lawn ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad 2019.

### 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Ann Davies, Tony Flynn a Tony Thomas (Is-gadeirydd).

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

### 3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion bryd.

### 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2018.

**Cywirdeb** – Sylwodd y Cynghorydd Meirick Davies (1) nad oedd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd wedi'u henwi yn y cofnodion yn ôl yr arfer, a (2) ar dudalen 8, eitem 7: dylid galw'r ysgol yn Ysgol Glan Clwyd yn y cofnodion Cymraeg a'r rhai Saesneg, ac nid '*Glan Clwyd School*'.

**Materion yn Codi** – Tudalen 6, Eitem 5: Rôl Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg. Holodd y Cadeirydd ynglŷn ag ystyr yr ail bwynt bwled, 'Roedd y Pwyllgor yn pryderu ynglŷn â'r gofyniad am siaradwyr Cymraeg' – cadarnhaodd y swyddogion fod a wnelo hyn â'r drafodaeth ynglŷn â thrafferthion recriwtio ar gyfer rhai swyddi proffesiynol lle'r oedd mynnu bod y Gymraeg yn hanfodol i'r swydd yn ei gwneud yn anos fyth.

**PENDERFYNWYD** y dylid, yn amodol ar yr uchod, derbyn cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2018 a'u cymeradwyo fel rhai cywir.

## 5 HUNANASESIAD SGILIAU IAITH

Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm – Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchoedd adroddiad (a ddsbarthwyd eisoes) ynglŷn â'r dull o hunanasesu sgiliau Cymraeg y staff.

Wrth ymateb i Safonau'r Iaith Gymraeg roedd disgwyl i'r Cyngor gynnal hunanasesiad yn flynyddol, ac roedd y Tîm Cyswllt Adnoddau Dynol yn ymdrin â hynny. Roedd arolygon yn y gorffennol wedi rhoi braslun o'r sgiliau, ond roedd rhywfaint o ansicrwydd a oedd y canlyniadau'n rhoi gwir ddarlun o'r sefyllfa oedd ohoni, a nodwyd fod rhai aelodau o staff wedi dweud nad oedd eu sgiliau cystal ag yr oeddent mewn gwirionedd. Gallai fod amryw resymau am hynny, gan gynnwys diffyg hyder neu er mwyn lleihau disgwyliadau i feithrin cyswllt â phobl yn Gymraeg. Credwyd y byddai gwybodaeth fanylach ynglŷn â'r lefelau hunanasesu'n helpu staff i gwblhau asesiadau mwy cywir a darparu data mwy cynhwysfawr ac ystyrlon fel y gallai gwasanaethau gynllunio eu darpariaeth ddwyieithog. Y bwriad oedd cyflwyno'r un system â Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, a soniodd Swyddog yr Iaith Gymraeg fwy am y lefelau o 0 i 5. Roedd disgwyl i bob staff gyflawni lefel 1 yn effeithiol, a oedd yn cynnwys cyfarch pobl yn ddwyieithog yn unol â Safonau'r Gymraeg. Câi rhywfaint o waith ei wneud hefyd er mwyn nodi'r ddarpariaeth o ran dysgu Cymraeg, a bwriedid dod ag adroddiad yn ôl i'r Pwyllgor ynglŷn â'r cynnydd gyda hyfforddiant.

Bu'r Aelodau'n trafod amryw agweddau ar yr adroddiad, a chawsant yr wybodaeth ganlynol gan y swyddogion:

- cyfrifoldeb pob gwasanaeth unigol oedd talu am gyrsiau dysgu Cymraeg – roedd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn darparu rhai cyrsiau am ddim ac anogwyd staff i gofrestru ar eu cyfer
- yn ôl yr arolwg blaenorol roedd oddeutu 29% o'r staff yn siarad Cymraeg, a oedd yn gyson â'r ganran o boblogaeth Sir Ddinbych oedd yn medru'r iaith – fodd bynnag, ni chredwyd fod hynny'n adlewyrchu'r sefyllfa mewn gwirionedd gan y nodwyd fod rhai aelodau o staff wedi tanddatgan eu gallu; roedd angen gweithio gyda'r staff i adnabod rhwystrau rhag asesu lefelau sgiliau'n iawn, a byddai'r system newydd yn hwyluso hynny
- Cynigiwyd cyrsiau Cymraeg ar wahanol lefelau o ran gallu er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf posib ar gyfer yr aelodau hynny o staff oedd yn dysgu – Coleg Cambria a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol oedd yn darparu'r cyrsiau
- roedd oddeutu deugain o aelodau o staff yn dilyn cyrsiau oedd yn addas i'w sgiliau iaith, a'r bwriad oedd gweithio â'r Tîm Cyswllt Adnoddau Dynol wrth lunio llyfryn i'r staff am y cyrsiau ffurfiol oedd ar gael, ynghyd â dulliau eraill anffurfiol

o feithrin sgiliau iaith fel mentora, darparu cyfleoedd i sgwrsio yn Gymraeg, defnyddio llinynnau gwddf i ddynodi siaradwyr Cymraeg ac yn y blaen

- cydnabuwyd hefyd fod rhai aelodau o staff yn dysgu Cymraeg yn eu hamser hamdden, ar ben y ddarpariaeth a gynigiai'r Cyngor, ac nid oedd y data presennol yn adlewyrchu hynny. Hefyd, roedd rhai aelodau o staff yn defnyddio ap i ddysgu Cymraeg – roedd y Tîm Cyswllt Adnoddau Dynol wrthi'n ceisio canfod pwy oedd y rhain, fel y gellid gwneud cofnod ac adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol yn well
- nodwyd yr amrywiaeth o ran faint o Gymraeg a gâi ei siarad ym mhrif swyddfeydd y Cyngor, a chytunodd yr aelodau ei bod yn gwneud synnwyr i ganolbwyntio ar siarad Cymraeg a hybu sgiliau iaith i ddechrau, cyn mynd ymlaen i weithio ar Gymraeg ysgrifenedig.

Roedd y pwyllgor yn croesawu'r dulliau oedd ar waith, ac yn cytuno y dylai esbonio'r amryw lefelau sgiliau helpu'r staff i roi darlun mwy cywir o'u gallu. Roedd yr Aelodau hefyd yn falch o glywed y câi staff eu hannog i fanteisio ar wahanol gyfleoedd hyfforddiant, a bod amrywiaeth o gynlluniau eraill ar waith i hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso ei datblygiad. Edrychai'r Cadeirydd ymlaen at dderbyn canlyniadau'r hunanasesiad yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD*** cymeradwyo'r dull o hunanasesu sgiliau Cymraeg y staff a nodwyd yn yr adroddiad.

## **6 SAFONAU'R GYMRAEG**

Cyflwynodd y Rheolwr Tîm – Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchoedd adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ynglŷn â'r cynnydd o ran Safonau'r Gymraeg.

Cyflwynwyd y Safonau yn Sir Ddinbych yn 2015 fel rhan o'r drefn o'u cyflwyno mewn sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru, ac roeddent yn deillio'n uniongyrchol o greu Mesur y Gymraeg a swydd Comisiynydd y Gymraeg. Roedd yn ofynnol i Sir Ddinbych gydymffurfio â 167 o Safonau mewn pum maes allweddol – Darparu Gwasanaethau; Llunio Polisiâu; Gweithrediadau; Cadw Cofnodion a Hyrwyddo. Y nod oedd sicrhau y câi'r Gymraeg ei thrin â'r un tegwch â'r Saesneg er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posib i aelodau o'r cyhoedd yn yr iaith o'u dewis. Gwnaethpwyd llawer o waith cyn cyflwyno'r Safonau, ac roedd y Cyngor yn cyflawni rhai ohonynt eisoes – cafwyd ymateb da gan y Gwasanaethau o ran sicrhau cydymffurfiaeth, ac roedd y Cyngor yn cydymffurfio â'r mwyafrif helaeth o'r Safonau. Serch hynny, roedd angen gwneud mwy o waith ynglŷn â hyrwyddo'r ffaith y gellid cynnal cyfarfodydd yn Gymraeg a bod hawl gan bawb a wahoddid i gyfarfodydd i gyfrannu yn Gymraeg. Roedd rhai aelodau o staff yn anghyfarwydd â'r gofynion hynny, ond gellid mynd i'r afael â hynny yn yr wythnosau oedd i ddod drwy gyfathrebu'n rhagweithiol. Byddai'r Cyngor yn dal i hyrwyddo negeseuon ynglŷn â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, i sicrhau ei fod yn dal i gydymffurfio ar lefel uchel.

Codwyd y materion canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd –

- roedd y Pwyllgor yn falch o weld lefel uchel o gydymffurfiaeth â'r rhan helaeth o'r Safonau. Roedd hefyd yn cydnabod y camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth wrth iddynt godi, gan gynnwys cynllun gweithredu wedi'i reoli a negeseuon rhagweithiol – cydnabuwyd gwaith y Tîm Cyfathrebu Corfforaethol yn hynny o beth, yn ogystal â chefnogaeth Hyrwyddwyr y Gymraeg. Roedd y Swyddogion hefyd yn cydnabod cefnogaeth yr Aelodau ac arweiniad pendant y Cyngor i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.
- nodwyd anghysonder rhwng y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r Safonau o ran eu rhifau, a bod yno Safon 29a yn y rhai Cymraeg ond nid y rhai Saesneg, a oedd a wnelo â darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o Saesneg i Gymraeg – cytunodd y swyddogion y byddent yn ymchwilio i'r anghysonder hwn gyda'r nod o gadarnhau'r gofynion a sicrhau cysondeb rhwng y fersiynau Cymraeg a Saesneg
- soniodd yr aelodau am eu profiadau eu hunain o gydymffurfiaeth/diffyg cydymffurfiaeth wrth ymwneud â'r Cyngor, a'r trafferthion a gawsant wrth ddefnyddio cyfeiriadau e-bost Cymraeg. Anogwyd yr aelodau i adrodd ynghylch unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth, a soniodd y swyddogion am y mesurau a gyflwynwyd eisoes er mwyn hwyluso cydymffurfiaeth staff â safonau penodol, gan gynnwys dosbarthu templedi, cardiau cyfarch dwyieithog ffonetig ac yn y blaen. Fodd bynnag, derbyniwyd ei bod yn anochel y byddai rhai achosion neilltuol yn codi ac os oedd staff yn gyndyn o gydymffurfio â'r Safonau dylid eu hannog i wneud hynny; byddai dal i ddefnyddio'r Gymraeg fel mater o drefn yn helpu i ddatblygu'r iaith ymhellach
- cadarnhaodd y swyddogion y câ'r Comisiynydd newydd wahoddiad i gyfarfod o'r Pwyllgor ar ôl ei benodi
- o ran hyrwyddo'r ffaith y gellid cynnal cyfarfodydd yn Gymraeg, cadarnhaodd y swyddogion y dylid cynnig y dewis yn rhagweithiol, a bod angen i staff feddwl ymlaen llaw wrth drefnu cyfarfodydd er mwyn bodloni'r gofynion – cynigiwyd y dewis fel mater o drefn ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus
- nodwyd fod gwahanol awdurdodau lleol a chyrff sector cyhoeddus yn destun gwahanol Safonau na fyddai'n newid ond pe byddai Comisiynydd y Gymraeg yn cymryd golwg o'r newydd ar y safonau hynny, neu pe byddai'r gyfraith yn newid
- cadarnhaodd y swyddogion nad oedd Safonau'r Gymraeg yn Sir Ddinbych yn cynnwys yr ysgolion, ac mai penderfyniad i bob Corff Llywodraethu unigol oedd eu mabwysiadu neu beidio
- byddai'r Pwyllgor Craffu Perfformiad yn adolygu polisi'r Cyngor ar enwau a rhifau strydoedd ar 21 Mawrth 2019.

***PENDERFYNWYD*** derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r camau gweithredu a gynigiwyd i fynd i'r afael ag unrhyw anawsterau.

## **7 CANOLFAN IAITH YSGOL GLAN CLWYD**

Rhoes y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts ragarweiniad byr a rhywfaint o gefndir i ddatblygu Canolfan Iaith Gymraeg yn Ysgol Glan Clwyd, yn sgil llwyddo gyda chais am grant gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r Ganolfan yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd, gan gynnwys darpariaeth cyn ysgol ac addysg i oedolion.



Roedd y Swyddog Moderneiddio Addysg a Rheolwr y Rhaglen Moderneiddio Addysg yn bresennol ar gyfer yr eitem hon, ac fe gyflwynont fwy o fanylion ynglŷn â'r Ganolfan:

- aethpwyd ati i sefydlu'r Ganolfan ar ôl gweld cynnydd yn y galw am addysg Gymraeg, gan gynnwys darpariaeth cyn ysgol
- byddai'r prosiect yn creu seilwaith ar gyfer cyflawni amcanion y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, ac yn benodol: Deilliant 1 – mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg; Deilliant 2 – mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd; a Deilliant 7 – cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus
- roedd y Ganolfan yn ffordd o ddefnyddio'r hen adeilad gwyddoniaeth a fu'n wag ers cwblhau prosiect Ysgol Glan Clwyd ac wedi'i ddal mewn ymddiriedolaeth at ddibenion addysgol
- soniwyd am y broses ymgeisio lwyddiannus, a'r ffaith bod Sir Ddinbych wedi cyflwyno'r achos busnes gorau yng Nghymru. O ganlyniad i hynny cafwyd £1.5 miliwn gan Lywodraeth Cymru drwy Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg a Chyllid Cyfalaf ar gyfer Darpariaeth Blynnyddoedd Cynnar
- ymhelaethwyd ynghylch nodau'r prosiect o ran darpariaeth i ddisgyblion cyn ysgol, cefnogi newydd-ddyfodiaid mewn addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, cyfleuster ar gyfer datblygu adnoddau Cymraeg, safle posib ar gyfer partneriaid darparu'r Gymraeg, a chynnydd bach yng nghapasiti Ysgol Glan Clwyd. Gellid darparu addysg i oedolion hefyd y tu allan i oriau'r ysgol.
- byddai'r Ganolfan yn helpu i gyflawni nod Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Croesawodd yr aelodau'r prosiect gan ddweud ei fod yn ddatblygiad a buddsoddiad mawr o ran y Gymraeg yn Sir Ddinbych, a rhoesant glod am atgyfnerthu'r cysylltiadau â phartneriaid a'r amrywiaeth helaeth o fuddiolwyr y cynllun. Mewn ymateb i gwestiynau, cadarnhaodd y swyddogion y sefyllfa o ran y fynedfa dros dro i'r Ganolfan newydd, ac ar sail yr amgylchiadau newydd roeddent wedi ymrwmo i drafod y cynigion â'r trigolion gerllaw cyn cyflwyno cais cynllunio ar gyfer newid defnydd. O ran amserlen y prosiect, disgwyliid cwblhau'r gwaith ailwampio erbyn mis Ebrill 2020. Dywedodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts fod y buddsoddiad mawr yn dangos ymrwymiad y Cyngor i'r Gymraeg yn Sir Ddinbych. Byddai'n dod â buddion hirdymor ac yn gadael etifeddiaeth i genedlaethau'r dyfodol. Mewn ymateb i gwestiynau ynglŷn â threfniadau cludiant, cadarnhaodd y byddai'r sir gyfan yn elwa ar y Ganolfan newydd, ac y byddai'r gwaith peripatetig yn parhau.

**PENDERFYNWYD** derbyn a nodi'r cyflwyniad ynglŷn â Chanolfan Iaith Gymraeg Ysgol Glan Clwyd.

Ar yr adeg hon (11.10 am) cymerodd yr aelodau egwyl am luniaeth.

## 8 YMATEB GAN SWYDDFA COMISIYNYDD Y GYMRAEG

Esboniodd yr Arweinydd Tîm – Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchoedd fod swyddogion Swyddfa'r Comisiynydd yn cynnal gwiriadau ar hap er mwyn asesu pa

wasanaethau'r Cyngor oedd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, ac asesu ansawdd y rheiny. Rhoes Swyddog yr Iaith Gymraeg gyflwyniad *PowerPoint* ynglŷn â'r ymateb a gafwyd fis Rhagfyr 2018, gan gynnwys y wybodaeth ganlynol:

### **Archwiliad Monitro 2017/18 –**

- ymatebodd y Cyngor i bob e-bost Cymraeg a phob ymholiad yn Saesneg ar *Facebook*
- fe gymerodd 11 diwrnod i ymateb i un ymholiad Cymraeg ar *Facebook* a 10 diwrnod i ymateb i'r un ymholiad yn Saesneg – nid oedd rheswm amlwg dros yr anghysonder
- nid oedd yr ymatebion i negeseuon *Facebook* yn cynnwys datganiad ynglŷn â gohebu yn Gymraeg – penderfynwyd cynnwys datganiad ar y dudalen *Facebook* i ddweud y croesewid gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.

### **Mesur llwyddiant – argaeledd ac ansawdd gwasanaethau**

- dull newydd o asesu sgiliau Cymraeg y staff
- hyfforddiant Cymraeg i staff
- cynlluniau i gefnogi staff – Clwb Cerdded Cymraeg/Eisteddfod y Cyngor/Côr Staff/Hysbysebu'r Safonau

### **Mesur llwyddiant – annog defnydd o'r Gymraeg/deall profiadau'r defnyddwyr**

- gweithio gyda busnesau i'w hannog i ddefnyddio brandio dwyieithog a chyflogi gweithwyr dwyieithog
- gweithio gyda'r Urdd a'r Fenter Iaith i hyrwyddo'r Gymraeg
- cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Canolfan Iaith newydd yn Ysgol Glan Clwyd
- ymestyn Canolfan y Dderwen yn y Rhyl er mwyn ehangu'r ddarpariaeth Cymraeg
- recriwtio siaradwr Cymraeg rhugl yn y Gwasanaethau Ieuenctid, a chynnal sesiynau pêl-droed Cymraeg yn y Rhyl gyda thrigain o bobl ifanc yn cymryd rhan
- gwaith mapio'n digwydd gyda Fforwm Iaith y Sir
- Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg

### **Mesur llwyddiant – ystyried yr effaith ar y Gymraeg/gweithredu'n fewnol**

- roedd y Cyngor yn fodlon fod yno drefniadau cadarn ar waith ar gyfer ystyried yr effaith ar y Gymraeg wrth benderfynu ynglŷn â pholisïau neu ddyfarnu grantiau
- bu'r ymateb i'r Safonau'n gadarnhaol ac nid oedd fawr ddim wedi newid o gymharu â'r hyn y bu'r Cyngor yn ei wneud o dan y Cynllun Iaith blaenorol – tybiwyd fod mwy o sesiynau un-i-un gyda staff wedi'u cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, a phrin y defnyddiwyd cyfieithwyr ar eu cyfer.

Roedd yr aelodau'n falch o weld y berthynas waith ragorol rhwng y Cyngor a Swyddfa'r Comisiynydd, a oedd yn hwyluso datblygiad pellach y Gymraeg yn Sir Ddinbych. Rhoddwyd clod arbennig hefyd i lwyddiant Côr y Staff, a oedd bellach yn derbyn ceisiadau i berfformio. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â defnyddio *Facebook* yn

Gymraeg a Saesneg, ac fe gadarnhaodd y swyddogion y gofynion a gytunwyd â Swyddfa'r Comisiynydd o ran hynny, ac fel cynghorwyr roedd yr aelodau hefyd yn rhannol gyfrifol am roi negeseuon dwyieithog a rhannu postiadau ar y ddwy dudalen *Facebook*, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o'r dudalen Gymraeg. Cadarnhaodd y swyddogion hefyd y byddai'r Cyngor yn dal i amlygu'r dudalen *Facebook* Gymraeg, ac yn dal i gyhoeddi negeseuon yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd. Nododd yr aelodau bod ymateb Swyddfa'r Comisiynydd yn adlewyrchu perfformiad y Cyngor bryd hynny, ac roedd llawer o waith wedi'i wneud yn y cyfamser, gan gynnwys y Ganolfan Feithrin newydd yn y Rhyl. Gofynnwyd am fwy o wybodaeth ynglyn â'r ddarpariaeth Cymraeg ychwanegol yng Nghanolfan y Dderwen yn y Rhyl a chytunodd y swyddogion i gysylltu â'r Tîm Moderneiddio Addysg i gael mwy o fanylion, ac adrodd yn ôl i'r aelodau wedi hynny.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am yr adroddiad cadarnhaol, gan ddweud mor galonogol oedd y cynnydd a wnaethpwyd a'r holl waith oedd yn mynd rhagddo i gynnwys y Gymraeg a'i hyrwyddo.

***PENDERFYNWYD*** derbyn a nodi'r cyflwyniad ynglŷn ag ymateb Comisiynydd y Gymraeg.

## **9 GWAITH PARTNER IAITH**

Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm – Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchoedd adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) gan roi cyflwyniad *PowerPoint* ynglŷn â Phartner Iaith, sef fforwm draws-sirol a oedd yn ymchwilio i ffyrdd y gellid datblygu'r Gymraeg yn strategol ledled y sir. Swyddogaeth y Partner Iaith oedd:

- cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 drwy weithredu gweledigaeth leol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych
- ehangu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- codi ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg
- cydweithio â phartneriaid i drafod, rhannu syniadau ac osgoi dyblygu gwaith
- gweithio ar lefel partneriaeth i nodi unrhyw fylchau yn narpariaeth y Gymraeg a mynd ati i fodloni'r anghenion
- hybu'r Gymraeg yn yr economi leol a gwasanaethau cyhoeddus
- pwysleisio gwerth economaidd-ddiwylliannol yr iaith yn y diwydiant twristiaeth
- pwysleisio mor bwysig yw'r iaith i'r sefydliadau hynny sy'n gyfrifol am brosiectau adfywio.

Roedd Partner Iaith yn cynnwys nifer o sefydliadau, gan gynnwys y Cyngor, ac roedd wedi bod yn ystyried cyfleoedd ar gyfer cyd-hyrwyddo, monitro Strategaeth Iaith Gymraeg y Cyngor a chynnal digwyddiadau hyrwyddo allweddol ar y cyd ledled y sir. Roedd y gwaith diweddaraf yn cynnwys mapio'r gweithgareddau oedd yn cael eu trefnu ym meysydd hamdden, plant, pobl ifanc, cymunedau, busnesau, teuluoedd a phobl hŷn. Er bod llawer yn digwydd yn y trefi mawr, roedd llai o weithgareddau yn ardaloedd gwledig y sir, ardaloedd ar yr arfordir a rhai ardaloedd yn ne Sir Ddinbych. Mewn ymateb i hynny roedd Partner Iaith yn argymhell:

- dal i fapio gweithgareddau nad oedd y sefydliadau partner yn eu harwain

- dadansoddi'r canfyddiadau erbyn mis Medi 2019
- gwneud argymhellion a gâi eu cynnwys mewn cynllun gwaith i'r dyfodol ar gyfer Partner Iaith
- cefnogi pwyllgorau iaith oedd eisoes wedi'u sefydlu ar gyfer Eisteddfod yr Urdd, ac ystyried sefydlu pwyllgorau ychwanegol yn yr ardaloedd hynny oedd â mwy o angen.

Nododd yr aelodau'r gwaith a wnaethpwyd gan Partner Iaith, a'r modd yr oedd yn cyflawni ei raglen waith bresennol. Cyfeiriwyd at y sefydliadau eraill oedd yn bartneriaid, a'r gwaith da a wnaethpwyd wrth hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg, a gan ystyried yr amrywiaeth o wahanol sefydliadau, cytunodd yr aelodau y byddai'n fuddiol cael adroddiad ynglŷn â strwythurau partneriaeth y sefydliadau hynny, sut oedd y partneriaid yn rhyngweithio â'i gilydd, a sut oeddent yn cael eu hariannu (gan gynnwys cyfraniadau gan y Cyngor). Amlygwyd hefyd mor bwysig oedd swyddogaeth y cymunedau a'r angen i feithrin cyswllt â hwy wrth hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg ymhellach. O ran costau, nodwyd y darparwyd cyllid ar gyfer swydd Swyddog y Gymraeg, ond heblaw am hynny nid oedd cyllideb neilltuol ar gyfer datblygu'r Gymraeg, a disgwyliod y byddai unrhyw gostau'n cael eu talu o'r cyllidebau presennol. Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r perygl y gallai ymddangos nad oedd y Cyngor yn rhoi digon o arian at hyn, gan nad oedd yno gyllideb benodol, dywedodd y swyddogion fod y gwasanaethau'n neilltuo cyllid ac nad oedd unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth wedi'u nodi. Hefyd, nid oedd unrhyw wasanaethau yn methu â chyflawni eu safonau o ran y Gymraeg. Ychwanegodd y Cyngorydd Huw Hilditch-Roberts y dylai Llywodraeth Cymru roi cymorth ariannol wrth wneud unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth neu bolisiau cenedlaethol i'w gweithredu yn lleol, gan gynnwys newidiadau yn y cwricwlwm addysg.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r dull o gyflawni rhaglen waith bresennol Partner Iaith.

## 10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor i'w ystyried, a chytunodd yr aelodau ar yr ychwanegiadau canlynol:

- Y wybodaeth ddiweddaraf am Eisteddfod yr Urdd – eitem sefydlog ar raglenni cyfarfodydd yn y dyfodol
- Adroddiad Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg – Gorffennaf
- Darpariaeth Hyfforddiant Cymraeg – Gorffennaf
- Sesiwn briffio ynglŷn â Sefydliadau Partner oedd wrthi'n hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg – Gorffennaf.

Nodwyd y câi'r eitem y gofynnodd y pwyllgor amdani o'r blaen ynglŷn ag elfen fusnes Safonau'r Gymraeg ei chyflwyno fis Tachwedd.

**PENDERFYNWYD**, yn ddibynnol ar yr uchod, derbyn a nodi'r rhaglen gwaith i'r dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.55 a.m.

<b>Adroddiad At:</b>	Grŵp Llywio Iaith Gymraeg
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	9 Gorffennaf 2019
<b>Aelod Arweiniol / Swyddog:</b>	Huw Hilditch Roberts / Nicola Stubbins
<b>Awdur yr adroddiad:</b>	Gareth Watson, Arweinydd Tim Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd
<b>Teitl:</b>	Adroddiad Monitro Iaith Gymraeg y Cyngor

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Adroddiad Monitro Iaith Gymraeg blynyddol y Cyngor

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I drafod a chytuno ar gynnwys yr adroddiad Monitro Iaith Gymraeg blynyddol ar gyfer 2018/19, sydd yn ofyniad statudol.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

I gytuno ar gynnwys yr adroddiad.

## 4. Manylion yr adroddiad

Mae disgwyl i'r Cyngor gynhyrchu adroddiad blynyddol ar ei wefan, a disgwylir i'r adroddiad fanylu ar y cynnydd a wnaed gyda'r Iaith Gymraeg.

Mae hi'n ddyletswydd statudol, yn unol â'r Safonau, i'r Cyngor gydymffurfio drwy gyhoeddi adroddiad.

Mae'r adroddiad yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i weithio tuag at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir ac er mwyn cyfrannu'n bositif tuag at yr ymgyrch genedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae'r adroddiad yn amlinellu cyrhaeddiadau a pherfformiad yn erbyn dangosyddion Iaith Gymraeg yr ydym wedi eu hadrodd yn eu herbyn; camau a gymerwyd gan y Cyngor i gydymffurfio â'r Safonau a gwybodaeth ar lefelau ieithyddol staff.

Mae'r Cyngor hefyd yn adrodd ar gynnydd gyda'r fframwaith Mwy Na Geiriau a Chynllun Strategol Addysg Gymraeg y Cyngor.

- 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**  
Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, sy'n tanategu Cynllun Corfforaethol y Cyngor.
- 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**  
Does dim cyllid benodol ar gyfer yr Iaith Gymraeg. Daw unrhyw gostau yn syth o gyllidebau sydd eisoes yn bodoli.
- 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**  
Er nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Safonau Iaith Gymraeg.
- Un o elfennau allweddol Ddeddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw: "Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus: Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn celfyddydau, chwaraeon a hamdden."
- Mae gan y Cyngor rôl hefyd, trwy ei Safonau Iaith Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau iaith Gymraeg.
- 8. Pa ymgynghori sydd wedi cymryd lle?**  
Ymgynghorwyd â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth
- 9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**  
Y prif risg yw enw da'r awdurdod gan ein bod eisoes wedi gwneud ymrwymiad yn y Strategaeth Iaith Gymraeg a thrwy'r Safonau Iaith Gymraeg I hyrwyddo defnydd o'r iaith yn y gweithle ac mewn cymunedau.

<b>Report To:</b>	Grŵp Llywio Iaith Gymraeg
<b>Date of Meeting:</b>	9 Gorffennaf 2019
<b>Lead Member / Officer:</b>	Huw Hilditch Roberts / Nicola Stubbins
<b>Report Author:</b>	Gareth Watson, Arweinydd Tim Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd
<b>Title:</b>	Partneriaethau

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r partneriaethau sy'n bodoli yn Sir Ddinbych i hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn strategol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bwyllgor llywio'r iaith Gymraeg ar y trefniadau partneriaeth sydd ar waith ar gyfer datblygiad strategol yr iaith Gymraeg a chylch gwaith y bartneriaeth.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

I gytuno ar gynnwys yr adroddiad.

## 4. Manylion yr adroddiad

Yn y cyfarfod diwethaf, gwnaed cais gan Aelodau i gael gwybodaeth am y partneriaid sy'n gweithio gyda Chyngor Sir Ddinbych i hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg.

Mae gan y Cyngor ei gyfrifoldebau ei hun tuag at ddatblygu'r iaith Gymraeg, fel y nodir yn safonau'r Gymraeg a strategaeth iaith Gymraeg yr awdurdod ei hun.

Y Prif nod yw sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn gwbl ddi-wahân i'r iaith Saesneg ac i gyfrannu'n bositif at y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg a osodwyd gan Lywodraeth Cymru erbyn 2050.

Mae'r Cyngor yn aelod rhagweithiol o'r partner iaith, partneriaeth Sir Ddinbych sydd wedi ei sefydlu i hyrwyddo gweithio ar y cyd.

Mae'r partner iaith yn cynnwys yr Aelodau canlynol: Cyngor Sir Ddinbych; Menter Iaith Sir Ddinbych; Coleg Cambria; Mudiad Meithrin (yn cynnwys prosiectau megis Cymraeg i Children/Clwb cwtsh; Llywodraeth Cymru (Uned y Gymraeg); Canolfan Dysgu Cymraeg (Coleg Cambria/Popeth Cymraeg); Urdd Sir Ddinbych; Merched y Wawr a'r ffermwyr ifanc.

Mae'r grŵp wedi bod yn edrych ar gyfleoedd ar gyfer traws-hyrwyddo, monitro strategaeth iaith Gymraeg Cyngor Sir Ddinbych a hyrwyddo ar y cyd mewn digwyddiadau allweddol ledled y sir.

Rôl partner iaith yw:

- Cyfrannu tuag at darged Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, drwy gael gweledigaeth leol i weld nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych yn defnyddio'r iaith yn cynyddu.
- Cynyddu nifer y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg (plant, pobl ifanc, teuluoedd, busnesau a grwpiau cymunedol)
- Cynyddu ymwybyddiaeth pobl o werth y Gymraeg fel rhan o'n treftadaeth a'r Gymru fodern.
- Gweithio ar y cyd â phartneriaid i drafod, rhannu syniadau ac osgoi dyblygu.
- Gweithio ar lefel partneriaeth i nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth Gymraeg a threfnu gweithgareddau i ddiwallu'r anghenion.
- Creu cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg yn yr economi ac mewn gwasanaethau cyhoeddus – gwaith cynghorau, iechyd, addysg a hamdden.
- Pwysleisio gwerth economaidd-ddiwylliannol yr iaith ar y diwydiant twristiaeth
- Pwysleisio pwysigrwydd yr iaith i'r sefydliadau hynny sy'n gyfrifol am brosiectau adfywio.

Isod ceir crynodeb o waith y prif bartneriaid.

### **Menter Iaith Sir Ddinbych**

Sefydlwyd Menter Iaith Sir Ddinbych (Menter Iaith Gymraeg Sir Ddinbych) ym mis Hydref 2013 wrth i Fenter Iaith Dinbych – Conwy esblygu ers cael ei sefydlu yn 1998. Mae'r fenter wedi bod yn elusen restredig ers 2004 ac yn gwmni cyfyngedig ers 2008. Mae gan y fenter fwrdd o 10 Cyfarwyddwr, tri aelod parhaol o staff, dau swyddog prosiect rhan amser ac 1 swyddog sy'n cefnogi busnesau sy'n gweithio ar draws Sir Ddinbych a Chonwy.

Mae gan Aelod Arweiniol Sir Ddinbych dros yr iaith Gymraeg le ar y Bwrdd fel aelod cyfetholedig.



Mae nodau ac amcanion y fenter yn ymwneud â normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd pob dydd yn Sir Ddinbych; sicrhau bod cefnogaeth a chyfleoedd i fewnfudwyr a Chymry di-Gymraeg ddysgu'r iaith; i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg brodorol yn cael cyfleoedd i ehangu eu gwybodaeth am yr iaith; gwaith i ddylanwadu ar ystod o weithgareddau cymdeithasol, ecomomaidd, diwylliannol ac addysgol yn y Sir trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

## **Urdd Sir Ddinbych**

Prif amcanion Urdd Gobaith Cymru yw darparu cyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg i bob person ifanc yng Nghymru (8-25 oed) i ddatblygu fel unigolion; ac yn eu galluogi i chwarae rhan gadarnhaol yn y gymdeithas drwy eu helpu i ddatblygu sgiliau personol a chymdeithasol.

Mae'r Urdd yn fudiad gwirfoddol cenedlaethol ac yn elusen sy'n darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Mae'r tîm lleol yn Sir Ddinbych yn cynnwys swyddog datblygu (wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a thrwy gyllid lleol); Swyddog pobl ifanc (wedi'i ariannu'n bennaf gan Wasanaeth Ieuenctid Sir Ddinbych); Prentis pobl ifanc; Swyddog plant a phobl ifanc (Gogledd y Sir) a swyddog gweinyddol.

Fe'u rheolir gan Sian Rogers, Cyfarwyddwr Pobl Ifanc a Chymuned y Gogledd.

Mae Eisteddfod yr Urdd yn wyl ddiwylliannol genedlaethol a gynhelir ym mis Mai bob blwyddyn. Cynhelir rhagbrofion lleol a sirol ar draws Cymru cyn i enillwyr pob cystadleuaeth fynd ymlaen i gynrychioli eu Sir yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r cystadleuwyr yn amrywio o adrodd, canu, cerdd dant, actio, drama, dawns, llenyddiaeth, celf a dylunio, Gwyddoniaeth, coginio a thrin gwallt.

Mae'r Urdd hefyd yn rhedeg nifer o glybiau allanol ac yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau chwaraeon fel gala nofio a thwrnameintiau pêl-droed.

## **Mudiad Meithrin**

Mudiad gwirfoddol yw Mudiad Meithrin a dyma brif ddarparwr gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn y sector gwirfoddol. Ein nod yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar brofiadau gofal ac addysg y blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg.

Maent yn cyflogi dros 200 o staff yn genedlaethol, ac mae 1,500 o aelodau staff ychwanegol yn gweithio yn y cylchoedd meithrin (cylchoedd chwarae cyfrwng Cymraeg) ledled Cymru. Mae swyddogion datblygu yn gweithio ar lefel leol ym mhob sir gan gynnig arweiniad a chynghor ymarferol i staff, gwirfoddolwyr a rhieni yn ei cylchoedd.

Gan fod chwarae yn rhan annatod o bob agwedd ar ddatblygiad plant, mae'r profiadau a'r gweithgareddau a gynigir ar draws ystod ei ddarpariaeth yn seiliedig ar ddysgu drwy chwarae. Rhoddir pwyslais arbennig ar ddatblygiad iaith ac ar ddatblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol y plant yn ein cylchoedd.

Mae Pwyllgor Sir Ddinbych o'r Mudiad Meithrin yn bodoli er mwyn darparu cefnogaeth i grwpiau lleol. Mae'r cylchoedd meithrin yn elusennau annibynnol gyda'r Mudiad Meithrin Cenedlaethol yn gweithredu fel sefydliad ymbarél cenedlaethol.

### **Cymraeg mewn Addysg (ar gyfer dysgwyr)**

Mae gan Sir Ddinbych athro ymgynghorol y Gymraeg sy'n cefnogi ac yn arwain datblygiad y Gymraeg mewn ysgolion ail-iaith ar draws y sir. (Ysgolion yng nghategoriâu 4 a 5). Mae'n gyfrifol am drefnu cyrsiau a gwaith dilynol, cymorth i athrawon, cynorthwyr a dysgwyr mewn ysgolion, er mwyn eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg gan ddefnyddio dulliau gweithredu perthnasol a threfniadau penodol a pherthnasol o fewn ysgolion.

Maent hefyd yn gyfrifol am drefnu cyfres o brosiectau a gweithgareddau i gyfoethogi'r cwricwlwm Cymraeg mewn ysgolion (categoriâu 1 i 5)

### **Cymraeg i Blant**

Mae Cynllun Cymraeg i blant wedi bod mewn bodolaeth ers Ebrill 2016 ac wedi dilyn prosiect TWF. Mae'r prosiect yn cael ei reoli gan Fudiad Meithrin ac yn cael ei ariannu gan adran addysg Llywodraeth Cymru. Mae arian wedi'i sicrhau ar gyfer y pedair blynedd nesaf.

Prif nod y prosiect yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg drwy roi cyngor, cefnogaeth a chefnogaeth i rieni, darpar rieni am fanteision gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae llawer o bwyslais ar weithio gyda'r sector gofal a phartneriaid blynyddoedd cynnar i sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn derbyn gwybodaeth am drosglwyddo'r iaith yn gynnar yn eu hoes. Gwneir hyn drwy nifer o sesiynau, gan gynnwys stori a chân, ioga i fabanod, hwyl i'r teulu a thyllino babanod.

## **Popeth Cymraeg**

Mae Popeth Cymraeg yn gyfrifol am ddysgu Cymraeg i oedolion yn y gymuned yn Sir Ddinbych. Mae'n gweithio mewn partneriaeth â Choleg Cambria fel rhan o dysgu Cymraeg yng ngogledd ddwyrain Cymru.

Mae popeth Cymraeg yn cael ei ariannu gan Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol.

Mae'r sefydliad wedi'i leoli ym Mhwll y Grawys, Dinbych. Ei Brif Weithredwr yw Ioan Talfryn a rheolir y Ganolfan gan Verona Pritchard-Jones.

## **Ffermwyr ifanc**

Mae ffederasiwn clybiau ffermwyr ifanc Cymru yn fudiad ieuenctid gwirfoddol sy'n gweithredu'n ddwyieithog ledled y Gymru wledig.

Ar hyn o bryd, mae dros 5,000 o bobl ifanc rhwng 10 a 26 oed yn aelodau o'r sefydliad, ac mae pob un ohonynt yn aelodau o rwydwaith o 157 o glybiau ffermwyr ifanc a deuddeg Ffederasiwn Sirol.

Mae pob un o glybiau CFFl yn gysylltiedig ag un o ddeuddeg Ffederasiwn Sirol annibynnol ac fe'u cynhelir gan rwydwaith o wirfoddolwyr, gyda chefnogaeth tîm amrywiol o staff ar lefel sirol, yn dibynnu ar gyllid a niferoedd aelodau. Mae pob clwb yn gweithredu gyda thîm o swyddogion; gan gynnwys Cadeirydd, is-gadeirydd, Trysorydd ac Ysgrifennydd, y mae pob un ohonynt o fewn oedran aelodaeth ac yn cael eu hethol yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol y clybiau. Mae'n ofynnol i bob clwb redeg yn ddemocrataidd gan ddilyn rheolau cyfansoddiad safonol a darparu rhaglen o weithgareddau y mae'r bobl ifanc yn gyfrifol am eu datblygu a'u darparu.

Ar hyn o bryd mae clybiau ffermwyr ifanc yn Nantglyn, Rhuthun, Bro Edeyrnion (Corwen) a Llangollen.

Mae ffederasiynau'r Sir yn darparu rhaglen o weithgareddau i glybiau ffermwyr ifanc gymryd rhan ynddynt a chaiff y rhain eu rheoli drwy gyfres o is-bwyllgorau. Etholir aelodau hefyd i gynrychioli barn eu clybiau ar Bwyllgor y Ffederasiwn llywodraethol; Weithrediaeth y sir. Yn yr un modd â ffederasiynau'r Sir, mae CFFl Cymru yn darparu rhaglen o wasanaethau a chefnogaeth gyffredinol i holl glybiau a siroedd Cymru. Mae hyn hefyd yn cael ei reoli drwy rwydwaith o is-bwyllgorau a'r corff llywodraethu; Cyngor CFFl Cymru.

## **Merched y Wawr**

Mae Merched y Wawr yn fudiad cenedlaethol sy'n cynnig cyfleoedd i fenywod gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys dysgwyr.

Mae dros 280 o ganghennau ar draws Cymru ac mae'r gweithgareddau'n cynnwys cookert, crefftau, chwaraeon, darlithoedd, cerddoriaeth, cwisiau a gwaith elusennol.

Mae Merched y Wawr yn ymgyrchu dros hawliau'r iaith Gymraeg ac ar gyfer hawliau menywod ac wedi cymryd rhan mewn nifer o fentrau, gan gynnwys cynhyrchu cylchgrawn Y Wawr; cefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol; codi arian ar gyfer canser y fron; yn cefnogi gwragedd ffermio Cymru; cofnodi casetiau ar gyfer y Deillion ac addysgu pobl am yr amgylchedd.

Mae Sir Ddinbych yn dod o dan rhanbarth Glyn Maelor sy'n cynnwys rhannau o Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'r swyddog dosbarth yn mynychu cyfarfodydd fforwm y Gymraeg.

- 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**  
Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, sy'n tanategu Cynllun Corfforaethol y Cyngor.

- 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**  
Does dim cyllid benodol ar gyfer yr iaith Gymraeg. Daw unrhyw gostau yn syth o gyllidebau sydd eisoes yn bodoli.

- 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Er nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Safonau Iaith Gymraeg.

Un o elfennau allweddol Ddeddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw: "Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus: Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn celfyddydau, chwaraeon a hamdden."

Mae gan y Cyngor rôl hefyd, trwy ei Safonau Iaith Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau iaith Gymraeg.

- 8. Pa ymgynghori sydd wedi cymryd lle?**

Ymgynghorwyd â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Y prif risg yw enw da'r awdurdod gan ein bod eisoes wedi gwneud ymrwymiad yn y Strategaeth Iaith Gymraeg a thrwy'r Safonau Iaith Gymraeg I hyrwyddo defnydd o'r iaith yn y gweithle ac mewn cymunedau.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>7 Gorffennaf 2019</b>
<b>Swyddog/Aelod Arweiniol:</b>	<b>Richard Mainon, Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol</b> <b>Alan Smith, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Emma Jones, Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Gwybodaeth Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd</b>

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1 Adroddiad eglurhaol ar gyfer polisi Enwi a Rhifo Strydoedd Cyngor Sir Ddinbych (CSDd).

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Gwnaed cais gan y Pwyllgor Craffu ar gyfer Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg i adolygu'r polisi.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Bod Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg yn adolygu Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd Cymraeg Cyngor Sir Ddinbych ac ystyried a oes angen newidiadau yn seiliedig ar ofynion yr iaith Gymraeg.

## **4. Manylion yr adroddiad**

4.1 Mabwysiadwyd y polisi Enwi a Rhifo Strydoedd gan Sir Ddinbych yn y Cyngor Llawn ym mis Mehefin 2014. Roedd y polisi yn seiliedig ar arfer orau Awdurdodau Lleol eraill. Yna cyfieithwyd y polisi o'r Saesneg i'r Gymraeg. Atodir y polisi cyfredol yn Atodiad 1.

4.2 Mae'r polisi cyfredol wedi ei addasu unwaith ers iddo gael ei fabwysiadu. Gwnaed cais gan ddatblygwr lleol i gynnwys "Cae" fel rhagddodiad i enwau stryd Cymraeg, gan nad oedd hwn ar y rhestr o enwau derbynol. Ymgorfforwyd y newid hwn i'r polisi ac fe'i cymeradwywyd gan benderfyniad Aelod Arweiniol wedi'i ddirprwyo ym mis Awst 2018.

4.3 Ym Mhwyllgor Craffu mis Chwefror, codwyd sawl pwynt ynghylch fersiwn Gymraeg y polisi. Er enghraifft, mae'r polisi Saesneg yn gwahardd defnyddio y

fannod 'The' yn Saesneg, ac felly 'Y/Yr' yn Gymraeg. Roedd hyn yn achos problem yn y fersiwn Gymraeg gan bod 'y fannod' yn angenrheidiol yn y Gymraeg fel rhagddodiad i enwau penodol, e.e. Y Rhyl, Y Bala.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Amherthnasol

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Amherthnasol

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho'r adroddiad Asesiad o Effaith ar Les cyflawn o'r [wefan](#), a'i gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn.**

7.1 Amherthnasol

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

8.1 Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau gan y Grŵp Llywio.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Amherthnasol

**10. Pa risgiau sydd ac oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Amherthnasol

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Deddf Llywodraeth Leol 1972

**Swyddog Cyswllt:**

Emma Jones, Tîm Cynllunio Strategol

Ffôn: 01824 708049



## Cynnwys

Adran A: Cyflwyniad .....	2
Adran B: Enwi Strydoedd.....	6
Adran C: Enwi a Rhifo Eiddo.....	12
Adran Ch: Cyfeiriadau Post .....	16
Adran D: Taliadau ar gyfer Gwasanaethau Rhifo Eiddo.....	20
Adran Dd: Gosod placiau enwau strydoedd.....	20
Adran E: Adolygiad polisi.....	22
Adran F: Cysylltiadau defnyddiol.....	22

Cymeradwywyd  
Gorffennaf 2014  
Wedi diwygiedig Awst 2018

## Adran A: Cyflwyniad

Pwrpas y ddogfen hon yw gosod y polisi ar gyfer neilltuo, rheoli a defnyddio pob cyfeiriad yn Sir Ddinbych gan gynnwys neilltuo enwau strydoedd, newidiadau i enwau eiddo ac ychwanegu enwau newydd.

### 1. Beth yw enwi strydoedd a rhifo?

- 1.1. Mae enwi strydoedd a rhifo yn caniatáu neilltuo hunaniaeth unigryw i stryd ac wedyn unrhyw eiddo cysylltiedig y gellir cael mynediad iddo ar y stryd.

### 2. Pam fod enwi strydoedd a rhifo yn bwysig?

- 2.1. Mae cyfeiriad eiddo yn dod yn fater pwysig iawn. Mae pob sefydliad sector cyhoeddus a phreifat, y gwasanaethau brys a'r cyhoedd angen modd effeithlon a chywir o leoli a chyfeirnod eiddo.
- 2.2. Mae cynnal safon gynhwysfawr, gyson ac uchel o enwi strydoedd a rhifo neu enwi eiddo yn hanfodol gan ei fod yn caniatáu:
  - Y Gwasanaethau Brys i ddod o hyd i eiddo'n gyflym – gall oedi gostio bywydau ac arian
  - Dosbarthu post, gwasanaethau a chynnyrch yn ddibynadwy ac yn effeithlon
  - Dylid cadw cofnodion o ddarparwyr gwasanaeth mewn modd effeithiol
  - Rhaid i gwmnïau dderbyn cyfeiriad at ddibenion swyddogol wrth ddarparu gwasanaethau telathrebu, yswiriant, bancio, gwirio statws credyd ac yn y blaen
  - Ymwelwyr er mwyn canfod eu cyrchfan

### 3. Pwy sy'n gyfrifol am enwi strydoedd a rhifo?

- 3.1. Mae gan Gyngor Sir Ddinbych gyfrifoldebau a grymoedd statudol, yng nghyd-destun deddfwriaeth mabwysiadu, ar gyfer enwi strydoedd, newid enwau strydoedd a nodi enwau strydoedd. Mae gan y Cyngor hefyd rymoedd dewisol ychwanegol i roi rhif neu enw ar eiddo.
- 3.2. Dylid nodi nad oes gan y Post Brenhinol gyfrifoldebau na phwerau statudol i naill ai enwi stryd neu enwi, rhifo, ail-enwi neu ail-rifo eiddo. Mae cyfrifoldeb llwyr ar y Post Brenhinol am neilltuo cod

post wedi i Gyngor Sir Ddinbych eu hysbysu am fanylion cyfeiriad newydd neu gyfeiriad diwygiedig.

#### 4. Datganiad Polisi

4.1. Mae'r polisi hwn yn darparu fframwaith i Gyngor Sir Ddinbych weithredu ei swyddogaeth enwi strydoedd neu rifo yn effeithiol ac yn effeithlon er budd trigolion, busnesau ac ymwelwyr. Bydd hefyd yn gweithredu fel canllaw i ddatblygwyr wrth ystyried enwau newydd ar gyfer strydoedd.

4.2. Mae'r Polisi'n diffinio:-

- Fframwaith cyfreithiol ar gyfer gweithredu gwasanaeth enwi strydoedd a rhifo.
- Protocolau ar gyfer pennu enwau a rhifau swyddogol ar strydoedd.

4.3. Gellir enwi a rhifo dan y Ddeddfwriaeth hon: Deddf Iechyd Cyhoeddus 1925.

4.4. Caiff swyddogaeth enwi strydoedd a rhifo ei darparu dan Gynllun Dirprwyo'r Cyngor. Y swyddog dirprwyedig yw'r Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer Gwella Busnes a Moderneiddio. O hyn allan 'y swyddog â phwerau dirprwyedig'.

#### 5. Ystyriaethau'r iaith Gymraeg

5.1. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn atebol am y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993, Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 a strategaeth iaith Llywodraeth Cymru, Iaith Fyw: iaith byw – Strategaeth Iaith Gymraeg 2012 i 2017.

5.2. Mae Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddatblygu pob agwedd ar yr iaith Gymraeg.

5.3. Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod yn sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

5.4. Y polisi mewn perthynas ag enwau strydoedd newydd, felly, fydd mabwysiadu naill ai enw Cymraeg neu enw dwyieithog sy'n cyd-fynd â threftadaeth leol a hanes yr ardal.

- 5.5. Ni fydd enwau strydoedd sydd ar hyn o bryd mewn un iaith yn unig yn cael eu cyfieithu oni bai fod cais yn cael ei wneud i ailenwi'r stryd yn unol â'r broses ailenwi yn Adran B, paragraff 4. (isod)
- 5.6. Lle bod ymholiad yn codi ynghylch enw lle, bydd y cyngor yn ymgynghori â gwasanaeth ymgynghorol ar enwau lleoedd Comisiynydd y Gymraeg.
- 5.7. Cydnabyddir y gall llawer o gronfeydd data ond cadw un fersiwn o gyfeiriad yn unig. Gyda chyfeiriadau dwyieithog, polisi'r Post Brenhinol yw cyhoeddi fersiwn Saesneg yn unig o gyfeiriadau ond cadw fersiwn Cymraeg yn y cefndir.
6. Pryd i wneud cais – canllawiau ar gyfer ymgeiswyr
- 6.1. Dylai ceisiadau am wasanaethau Enwi Strydoedd a Rhifo gael eu gwneud gan:
- Perchnogion / datblygwyr eiddo neu dir sy'n dymuno ychwanegu enw i eiddo sydd â rhif yn unig ar hyn o bryd
  - Perchnogion / datblygwyr eiddo neu dir sy'n dymuno ailenwi eiddo sydd ag enw ar hyn o bryd
  - Perchnogion / datblygwyr eiddo neu dir sy'n adeiladu eiddo preswyl, eiddo masnachol, unedau masnachol ac yn y blaen o'r newydd
  - Perchnogion / datblygwyr eiddo neu dir sy'n dymuno newid cynlluniau ar gyfer datblygiadau newydd sydd eisoes wedi mynd drwy'r broses enwi a rhifo ffurfiol.
  - Perchnogion / datblygwyr eiddo neu dir sy'n gwneud gwaith trawsnewid eiddo presennol a fydd yn arwain at greu eiddo preswyl neu eiddo busnes newydd. Bydd hyn yn cynnwys adeiladau presennol sydd wedi'u hisrannu'n fflatiau neu'n swyddfeydd, ysguboriau a droswyd yn eiddo preswyl a rhannu unedau masnachol
  - Preswylwyr sy'n dymuno ailenwi stryd
  - Unigolion a busnesau sy'n gofyn am gadarnhad i gyfeiriad
- 6.2. Gan fod y broses o enwi strydoedd a rhifo yn cynnwys ymgynghori a pharatoi amserlenni a gymeradwywyd, dylai ymgeiswyr ymgynghori â'r cyngor cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi oedi posibl. Dylid cyflwyno ceisiadau cyn gynted â phosibl wedi i ganiatâd

cynllunio ffurfiol a/neu gymeradwyaeth rheoliadau adeiladu gael ei roi ar gyfer y cynnig.

## 7. Sut i wneud cais – canllawiau ar gyfer ymgeiswyr

7.1. Gellir gwneud cais Enwi Strydoedd a Rhifo ar-lein yn <https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswylwr/rheoliadau-cynllunio-ac-adeiladu/enwi-strydoedd-a-rhifo/enwi-a-rhifo-stryd.aspx>

7.2. Fel arall, gallwch gael ffurflen gais gan:

- Rhif Ffôn: 01824 706000
- E-bost: gwasanaethcwsmer@sirddinbych.gov.uk

## Adran B: Enwi Strydoedd

### 1. Egwyddorion cyffredinol

- 1.1. Caiff strydoedd newydd eu henwi yn Sir Ddinbych yn unol â darpariaeth Deddf Iechyd Cyhoeddus 1925.
- 1.2. Caiff datblygwyr eu hannog i gynnal unrhyw gysylltiad hanesyddol â'r tir neu'r ardal leol.
- 1.3. Mae'n bwysig bod datblygwyr yn cysylltu â'r Cyngor ynghylch enwi strydoedd a rhifo cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. Gall methiant i wneud hynny arwain at oedi gan fod yn rhaid rhoi cymeradwyaeth er mwyn enwi strydoedd a rhifo cyn i unrhyw arwyddion gael eu gosod neu cyn y darperir cyfeiriadau post.
- 1.4. Bydd holl gostau cyflenwi a gosod placiau enwau ar gyfer strydoedd newydd yn cael eu talu gan y datblygwr. Dylid anfon cynllun manwl yn dangos y stryd(oedd) a rhifau plotiau bwriedig yn glir at y Swyddog Enwi Strydoedd a Rhifo. Mae'n bosibl y bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal gyda'r Gwasanaeth Amgylchedd a Phriffyrdd o ran addasrwydd lleoliadau bwriedig y placiau enwau strydoedd. Gall manyleb arwyddion a manylion cyswllt cyflenwr gael eu darparu i'r datblygwr. Ar gyfer unrhyw stryd a fabwysiadwyd, bydd cynnal y plac(iau) enw yn dod yn gyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol.
- 1.5. Ni ddylai enwau strydoedd newydd ddyblygu unrhyw enw tebyg sydd eisoes yn cael ei defnyddio yn y dref bost. Ni fydd amrywio'r gair cyntaf, h.y. "Stryd", "Ffordd", "Rhodfa" ac ati, yn cael eu derbyn fel rhesymau digonol i ddyblygu enw.
- 1.6. Ni fydd unrhyw gynnig i enwi stryd ar ôl unigolion penodol (byw neu farw) yn cael eu cymeradwyo oni bai bod achos clir yn cael ei wneud ynghylch cysylltiad hanesyddol neu ddiwylliannol yr unigolyn â'r tir neu'r gymdogaeth.
- 1.7. Ni chaniateir unrhyw enwau strydoedd sy'n hyrwyddo cwmni, gwasanaeth neu gynnyrch gweithredol gan y gellid ystyried hyn yn hysbysebu.

1.8. Mae'r awdurdod yn cadw'r hawl i wrthwynebu unrhyw enw a awgrymwyd y mae'n ystyried yn amhriodol.

2. Dylai pob enw stryd newydd ddechrau gydag un o'r rhagddodiaidau a ganlyn:

- Stryd ar gyfer unrhyw ffordd
- Ffordd ar gyfer prif ffyrdd
- Ffordd }
- Rhodfa }
- Dreif } ar gyfer ffyrdd preswyl
- Llwyn }
- Lôn }
- Gerddi } (ar yr amod nad oes dryswch gydag unrhyw fan agored lleol)
- Maes
- Trem
- Llys – ar gyfer ffordd bengaead
- Cilgant – ar gyfer ffordd siâp cilgant
- Clôs – ar gyfer ffordd bengaead
- Sgwâr – ar gyfer sgwâr yn unig
- Bryn – ar gyfer ffordd ar ochr bryn yn unig
- Cylchfan – ar gyfer cylchfan fawr
- Teras/Rhes – ar gyfer teras o dai (cyn belled nad yw'n enw ategol)
- Cae
  
- Dyffryn }
- Dene }
- Dôl } ar gyfer ffyrdd preswyl yn unig dan amgylchiadau eithriadol os ydych yn brin o enwau
- Gallt }
  
- Ni fydd y canlynol yn dderbyniol fel rhagddodiadau:
  - Pen }
  - Croes }
  - Ochr }
  - Glanfa }
  - Parc }(Gellir wrth gwrs ymgorffori pob un o'r geiriau hyn mewn enw stryd ar yr amod eu bod yn dechrau gyda rhagddodiad priodol (e.e. Ffordd Pen y Filltir))
  
- Yr unig eithriadau i hyn fydd Enwau sengl neu ddeuol heb ragddodiaidau mewn manau priodol (e.e. Broadway – ar gyfer priffyrdd yn unig)

- 2.1. Bydd pob ffyrdd newydd i gerddwyr yn dechrau gydag un o'r rhagddodiaidau canlynol:
    - Rhodfa
    - Llwybr
    - Ffordd/Lôn
  
  - 2.2. Ni fydd unrhyw enw stryd newydd yn dechrau gydag "Y" yn Gymraeg nac yn Saesneg.
  - 2.3. Byddwn yn osgoi enwau sy'n anaddas yn esthetig fel Tŷ'r Domen, Lôn y Twll, neu enwau y gellir eu camddechongli'n fwriadol fel Hoare Road, Typple Avenue, Swag House, ac ati.
  
  - 2.4. Bydd defnyddio Gogledd, Dwyrain, De neu Gorllewin (fel Gogledd Ffordd Alfred, a De Ffordd Alfred) ond yn dderbyniol lle mae'r ffordd yn un barhaus ac yn parhau heibio i gyffordd fawr. Nid yw'n dderbyniol pan fod y ffordd mewn dwy ran unigol heb fynediad i gerbydau rhwng y ddwy. Mewn achos o'r fath dylid ailenwi un hanner yn gyfan gwbl.
  
  - 2.5. Ni fyddwn yn caniatáu dau enw sy'n debyg o ran sain o fewn ardal bost. e.e. Ffordd Alfred a Clôs Alfred neu Ffordd Churchill a Ffordd Birch Hill.
  
  - 2.6. Mae cyfrifoldeb ar Gyngor Sir Ddinbych fel awdurdod enwi strydoedd a rhifo am roi cymeradwyaeth derfynol i enw stryd.
  
  - 2.7. Os oes anghytundeb heb ei ddatrys, bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y swyddog sydd â'r grym dan ddirprwyaeth i gymeradwyo enwau strydoedd yng nghyfansoddiad y cyngor. Os yw'r person sy'n bwriadu enwi'r stryd yn parhau i anghytuno gyda gwrthwynebiadau'r cyngor gallant apelio yn erbyn y gwrthwynebiad i Lys Ynadon, o fewn un diwrnod ar hugain.
  
  - 2.8. Bydd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am benderfynu ar enwau lleoedd o ran cyfieithiadau Cymraeg a gymeradwywyd.
3. Defnyddio enwau marchnata answyddogol
    - 3.1. Rhaid i ddatblygwyr nodi'n glir mewn unrhyw lenyddiaeth marchnata a ddisbarthir i ddarpar brynwyr bod enwau marchnata'n amodol ar gymeradwyaeth ffurfiol ac y gallent newid o ganlyniad.
4. Ailenwi Stryd / newid enw stryd



- 4.1. Mae ailenwi stryd ac ailrifo adeiladau'n broses sy'n cymryd llawer o amser a gall achosi costau neu aflonyddwch i breswylwyr a pherchnogion unigol a byddwn yn ei osgoi lle bynnag y bo'n bosibl. Byddwn fel arfer ond yn ystyried ailenwi stryd os yw problemau cyson yn codi i'r Gwasanaethau Brys a byddwn ond yn ystyried ailrifo eiddo pan fod datblygiadau mewnlenni ac ati mor fawr, fel na ellir neilltuo rhifau ar gyfer yr eiddo newydd. Yna gallai cynllun ailrifo gael ei gynnal ar y stryd bresennol.
- 4.2. Gall y canlynol gynnig ailenwi stryd:
- Trethdalwr unigol sy'n preswyllo yn y stryd a effeithir ar yr amod eu bod yn cyflwyno llythyr yn cynnig newid gyda llofnodion 5 neu 25% (pa un bynnag yw'r lleiaf) o'r trethdalwyr sy'n preswyllo ar y stryd.
  - Gan y Gwasanaethau Brys.
- 4.3. Y cyngor fydd yn talu'r gost o ailenwi ac ailosod arwyddion ar strydoedd ar gais y Gwasanaethau Brys.
- 4.4. Os yw stryd yn cael ei hailenwi ar gais trethdalwr (neu grŵp o drethdalwyr) ar y stryd, gwahoddir y Cyngor Tref neu Gymuned fel arfer i weithredu fel noddwr. Mae hyn yn golygu y bydd gofyn i'r Cyngor Tref neu Gymuned perthnasol dalu'r costau canlynol:
- Ffi weinyddol fechan i dalu am ymgynghori ar y newid arfaethedig
  - Costau cychwynnol ailosod arwyddion stryd.
- Bydd Cyngor Sir Ddinbych wedyn yn talu costau cynnal a chadw parhaus yr arwyddion.
- 4.5. Cyn ailenwi unrhyw stryd / addasu enw, bydd y swyddog Enwi Strydoedd a Rhifo yn cynnal ymgynghoriad llawn gyda'r trethdalwyr ar y stryd a effeithir a'r rhai ar y rhestr ymgynghori a amlinellir ym mharagraff 4.1, Adran D. Bydd llythyr a ffurflen yn cael eu hanfon at bob trethdalwr ar y stryd a'r rhai ar y rhestr ymgynghori yn amlinellu'r rhesymau o blaid a goblygiadau'r newid arfaethedig. Bydd y cyfnod ymgynghori yn para 28 diwrnod.
- 4.6. Bydd adroddiad yn manylu ar ganlyniadau'r ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno i'r swyddog sydd â grymoedd dan ddirprwyaeth a fydd yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newid. Gallai'r

rhesymau dros beidio â bwrw ymlaen â'r newid arfaethedig gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- Diffyg cefnogaeth gan drethdalwyr
- Costau afresymol
- Gwrthwynebiad dilys ac o ddifrif gan fudd-ddeiliad na ellir ei ddatrys yn hawdd.

Bydd yr adroddiad yn cynnwys cost gosod unrhyw blaciau enwau strydoedd newydd ac a fyddai'r newid arfaethedig yn golygu newid i god post y Post Brenhinol.

4.7. Os yw'r swyddog sydd â grym a ddirprwywyd yn penderfynu bwrw ymlaen â newid enw, bydd yr Awdurdod Lleol yn cyhoeddi rhybudd o fwriad i greu gorchymyn ailenwi stryd bresennol. Bydd yr hysbysiad hwn yn cael ei arddangos ar ben bob stryd neu mewn man amlwg ar y stryd neu ran o'r stryd yr effeithir arni dan Adran 18 Deddf Iechyd Cyhoeddus 1925 a rhaid iddynt aros yn eu lle am un mis cyn y gellir gwneud gorchymyn i newid yr enw. Gall unrhyw unigolion sydd wedi'u tramgwyddo gan orchymyn bwriedig yr Awdurdod Lleol, apelio i'r Llys Ynadon o fewn 21 diwrnod o osod yr hysbysiad. Os gwneir apêl i'r Llys Ynadon, rhaid i'r Awdurdod Lleol aros nes bod apêl wedi'i chlywed cyn cymeradwyo unrhyw enw stryd.

## 5. Enwi strydoedd dienw sy'n bodoli eisoes

5.1. Bydd strydoedd dienw ond yn cael eu hailenwi pan fydd trethdalwr ar y stryd yn gwneud cais i enwi eu stryd (ac awgrymu enw) gan fod y diffyg enw yn achosi oedi cyn i'r Gwasanaethau Brys ddod o hyd i'r stryd. Bydd y weithdrefn yn unol ag Adran 2.3 ar gyfer ailenwi stryd ac mae'n rhaid i'r enw newydd gadw at yr egwyddorion a amlinellir yn y polisi hwn.

## 6. Arddangos enwau strydoedd (placiau enwau strydoedd)

6.1. Cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol yw arddangos placiau enwau strydoedd ar ffyrdd sy'n cael eu cynnal gan yr Awdurdod Lleol (priffyrdd a fabwysiadwyd).

6.2. Cyfrifoldeb y perchennog, datblygwr neu breswylwyr ffyrdd preifat yw gosod a chynnal placiau enwau strydoedd. Os tynnir sylw Awdurdod Lleol at y ffaith nad oes plac enw stryd wedi'i arddangos ar ffordd breifat, bydd yr Awdurdod yn rhoi 21 diwrnod o rybudd i berchnogion/preswylwyr y ffordd i arddangos yr enw cywir.

- 6.3. Lle na chydymffurfir â'r Hysbysiad, bydd yr Awdurdod hwn yn rhoi 14 diwrnod o rybudd y bydd yn achosi i'r placiau enwau i gael eu harddangos ar y ffordd breifat, yn ddiodyn, ac adennill y costau oddi wrth berchnogion neu breswylwyr y ffordd, yn unol ag adran 15 (2), Deddf 1939. Gallai'r Awdurdod hefyd ddechrau achos i adennill dirwy.

## Adran C: Enwi a Rhifo Eiddo

### 1. Dilyniant rhifo eiddo

- 1.1. Bydd strydoedd newydd yn cael eu rhifo fel bod eilrifau ar ochr dde'r stryd, wrth deithio allan o ganol y dref, o ddechrau i ddiwedd y stryd a bod odrifau yn cael eu neilltuo ar y chwith.
- 1.2. Bydd lonydd pengaead a datblygiadau ar raddfa fach yn cael eu rhifo'n olynol mewn cyfeiriad clocwedd. Bydd datblygiadau lôn bengaead hirach unwaith eto'n cael eu rhifo gydag eilrifau'n cael eu neilltuo i eiddo ar yr ochr dde ac odrifau'n cael eu neilltuo i eiddo ar y chwith.
- 1.3. Bydd rhifau (gan gynnwys rhif 13) yn parhau i fod y olynol ac ni fydd unrhyw rif yn cael ei eithrio o ganlyniad i ofergoel neu ddewis personol. Bydd ceisiadau i hepgor unrhyw rif o gyfres o rifau, am ba bynnag reswm, yn cael eu gwrthod.
- 1.4. Bydd eiddo (gan gynnwys rhai ar safleoedd cornel) yn cael eu rhifo yn ôl y stryd y lleolir y brif fynedfa arni.
- 1.5. Lle nad yw dilyniant rhifo strydoedd yn bodoli, yn bennaf mewn ardaloedd gwledig, bydd yn briodol i neilltuo enwau eiddo y cytunwyd arnynt.
- 1.6. Bydd datblygiadau mewnlenni (eiddo newydd a adeiladwyd rhwng eiddo sydd eisoes yn bodoli neu ar dir eiddo presennol) ar stryd a rifwyd yn cael yr un rhif tŷ â'r eiddo cyn y mewnlenni a'i ddilyn gan ôl-ddodiad 'A', 'B'. Er enghraifft, 10A, 10B ac ati
- 1.7. Ni chaiff enw busnes gymryd lle rhif neu enw adeilad.
- 1.8. Ni fydd unrhyw enw eiddo newydd yn dechrau gydag "Y" yn Gymraeg nac yn Saesneg.
- 1.9. Bydd anecsau i adeiladau e.e. fflatiau nain neu lety ategol, yn derbyn y rhagddodiad "Anecs". Bydd gweddill y cyfeiriad yr un fath â'r prif eiddo e.e. Anecs, 1 Stryd Fawr.
- 1.10. Ar gyfer unrhyw annedd sydd â mynediad mewnol iddo trwy gysail masnachol, bydd y llety yn derbyn rhagddodiad i gyd-fynd â'r math o lety e.e. fflat. Bydd gweddill y cyfeiriad yr un fath â'r prif

eiddo, e.e. lle mae fflat uwchben tafarn ac mai dim ond mynediad mewnol sydd iddo, ei gyfeiriad fydd Fflat, Enw'r Dafarn, Rhif yr Eiddo ac Enw'r Stryd.

1.11. Gellir rhoi enw i flociau o fflatiau a fflatiau aml-lawr, ond bydd pob fflat neu fflat aml-lawr unigol yn cael eu rhifo'n olynol

1.12. Yn ddelfrydol dylai enw pob bloc o ddatblygiad newydd arfaethedig ddechrau gydag un o'r rhagddodiaidau canlynol (neu ôl-ddodiaid yn achos cyfieithiadau Saesneg):

- Llys
- Tŷ
- Tŵr
- Llety
- Fflatiau
- Plastai
- Ucheldir

1.13. Bydd y gair "fflat" yn berthnasol i'r eiddo hynny lle mae llety ar un llawr yr adeilad yn unig. Os yw llety preswyl yn ymdrin â dau neu fwy o lorïau a bod ganddo ei risiau mewnol ei hun, bydd y term "fflat aml-lawr" yn cael ei ddefnyddio.

1.14. Rhoddir rhif yn hytrach na llythyren neu ddisgrifiad i bob fflat e.e. Fflat 1 yn hytrach na Fflat A neu Fflat Llawr Cyntaf.

## 2. Canolfannau siopa, parciau manwerthu ac ystadau diwydiannol

2.1. Mae enwau ar gyfer Canolfannau Siopa, Parciau Manwerthu ac Ystadau Diwydiannol ac ati yn dilyn yr un egwyddorion â'r rhai a amlinellwyd ar gyfer enwau strydoedd neu adeiladau

## 3. Gweithredu cyfeiriadau newydd

3.1. Pan fod datblygiad newydd wedi cael ei gymeradwyo, caiff cyfeiriadau eu creu gan y Cyngor fel endidau 'dros dro'. Mae manylion y datblygiad arfaethedig yn cael eu rhannu gyda'r Post Brenhinol sydd wedyn yn 'dal a chofnodi' y cyfeiriadau ar eu cronfa ddata cyfeiriadau 'Heb eu Creu Eto'. Er mwyn osgoi unrhyw broblemau lle caiff post ei anfon i eiddo nad ydynt yn bodoli, nid yw'r cyfeiriadau'n cael eu gweithredu hyd nes bod preswylwyr yn yr eiddo neu eu bod wedi'u cwblhau ac felly'n gallu derbyn gwasanaethau post.

#### 4. Ychwanegu enw neu ailenwi eiddo sydd eisoes wedi'i rifo.

- 4.1. Lle bod rhif ar eiddo, rhaid iddo gael ei ddefnyddio a'i arddangos. Pan fydd enw'n cael ei roi i eiddo ynghyd â'i rif swyddogol, rhaid cynnwys y rhif bob amser. Ni ellir ystyried yr enw fel dewis arall yn lle'r rhif.
- 4.2. Gall perchennog (nid tenant) eiddo ofyn i ychwanegu, diwygio neu ddileu enw ar gyfer eu heiddo. Pan fydd eiddo wedi'i rifo, bydd unrhyw enw yn ychwanegol at y rhif.
- 4.3. Os ceir cais i ychwanegu enw i eiddo sydd eisoes wedi cael ei rifo, bydd yr awdurdod yn rhoi'r arweiniad canlynol:
  - Ni ddylai fod unrhyw wrthdaro ag enwau ar eiddo neu stryd bresennol yn yr ardal bost.
  - Ni ddylid enwi eiddo ar ôl unigolion penodol (byw neu farw).
  - Ni ddylai'r enw bwriedig gynnwys iaith sarhaus neu amhriodol.
- 4.4. Pan fydd yr awdurdod lleol wedi rhifo tŷ a bod y preswlydd wedi rhoi enw arno hefyd, bydd y Post Brenhinol ond yn cynnwys y rhif yn y cyfeiriad post.

#### 5. Trawsnewid adeilad presennol

- 5.1. Os caiff eiddo preswyl ei drawsnewid neu ei isrannu gan arwain at greu un pwynt mynediad lle ceir mynediad i bob fflat, bydd yn cael ei rifo yn hytrach na'i ddisgrifio neu ei nodi â llythrennau. Er enghraifft, Fflat 1 yn hytrach na Fflat Llawr Cyntaf neu Fflat A
- 5.2. Os caiff eiddo preswyl ei drawsnewid neu isrannu gan arwain at greu mwy nac un pwynt mynediad gyda drws ffrynt unigol ar gyfer pob fflat o'r stryd a ddynodwyd, bydd yn cynnwys ôl-ddodiad i'r prif gyfeiriad neu'r cyfeiriad cragen. Er enghraifft, bydd 'A', 'B', 'C' yn dod yn 10A, 10B, 10C
- 5.3. Bydd eiddo cyfun yn defnyddio rhifau'r eiddo gwreiddiol os yw rhifau eiddo'n cael eu defnyddio. Er enghraifft, bydd cyfuno dau eiddo o'r enw 4 Stryd Fawr a 6 Stryd Fawr neu Uned 1 Stad Fasnachu ac Uned 2 Stad Fasnachu yn arwain at greu'r cyfeiriadau newydd 4-6 Stryd Fawr ac Uned 1-2 Stad Fasnachu yn y drefn honno

## 6. Ailrifo eiddo presennol

- 6.1. Byddwn yn ystyried ailrifo eiddo presennol pan fo newidiadau'n digwydd sy'n achosi (neu'n debygol o achosi) problemau o ran darparu gwasanaethau neu faterion a nodir gan y gwasanaethau brys. Gallai hyn fod yn berthnasol pan na ellir cynnwys datblygiad newydd o fewn y dilyniant rhifo presennol. Gan y gall y broses gymryd llawer o amser ac y gall arwain at gostau, amhariad neu anghyfleustra ychwanegol i breswylwyr unigol, dylid ei osgoi lle bynnag fo modd.
- 6.2. Ar gyfer datblygiadau newydd o fewn stryd bresennol ffafrir defnyddio ôl-ddodiaidau neu ailrifo lle mai dim ond ychydig o eiddo a fydd yn cael eu heffeithio yn hytrach nac ailrifo'r stryd gyfan. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn bosibl a bydd strydoedd yn cael eu hailenwi ac eiddo'n cael eu hail-rifo yn ôl disgrisiwn Cyngor Sir Ddinbych.

## 7. Arddangos enwau a rhifau eiddo

- 7.1. Mae'n rhaid bod modd gweld pob rhif eiddo o'r briffordd. Gallai hyn gynnwys gosod rhifau ar bolion, gatieu neu ffensys (ac nid o reidrwydd ar ddrws yr eiddo) i helpu ei gwneud yn hawdd adnabod yr eiddo, yn enwedig os oes argyfwng.

## Adran D: Cyfeiriadau Post

### 1. Neilltuo cyfeiriadau post

- 1.1. Nid yw neilltuo cyfeiriad post yn gyfystyr â chadarnhad bod unrhyw adeilad neu adeiledd wedi'i awdurdodi dan Reoliadau Cynllunio, Adeiladu neu unrhyw Deddfwriaeth arall. Gallai perchnogion/preswylwyr wynebu'r posibilrwydd o gamau gorfodi os na sicrhawyd unrhyw gymeradwyaeth angenrheidiol.
- 1.2. Nid yw'r Awdurdod Lleol yn atebol na'n gyfrifol am sicrhau fod unrhyw drydydd parti, gan gynnwys y Post Brenhinol, yn diweddarau gwybodaeth cyfeiriadau ar eu cronfeydd data.
- 1.3. Ni ellir rhoi cyfeiriad post i ddarn o dir, e.e. cae fferm, dim ond eiddo ar y darn hwnnw o dir all dderbyn cyfeiriad at ddibenion dosbarthu post a gwasanaethau

### 2. Codau post

- 2.1. Caiff pob elfen o gyfeiriad, ac eithrio cod post, eu diffinio gan Gyngor Sir Ddinbych. Eiddo Deallusol yr awdurdod yw rhifau ac enwau a gaiff eu neilltuo i eiddo a'r enwau swyddogol a gaiff eu neilltuo i strydoedd. Y Post Brenhinol sy'n rheoli'r broses o neilltuo codau post a rhaid iddynt eu darparu ar ôl derbyn y cynllun enwi a rhifo swyddogol gan yr Awdurdod Lleol ond bydd y cod post yn cael ei gadw "wrth gefn" gan y Post Brenhinol hyd nes eu bod yn cael eu hysbysu bod preswylwyr yn yr eiddo.
- 2.2. Nid yw'r Post Brenhinol yn cyhoeddi cyfeiriadau nad ydynt wedi'u cwblhau a/neu â phreswylwyr ar eu gwefan. Mewn achosion penodol, mae hyn yn golygu bod posibilrwydd na fydd modd, am gyfnod, i unrhyw un sy'n defnyddio gwefan y Post Brenhinol i ddilysu cyfeiriad, weld cyfeiriadau sydd wedi eu neilltuo a'u cyhoeddi'n swyddogol gan yr Awdurdod Lleol. Gall hyn hefyd olygu na fydd chwaith modd i sefydliadau eraill sy'n defnyddio cronfa ddata cyfeiriadau'r Post Brenhinol (Ffeil Cyfeiriadau Cod Post) er mwyn dilysu cyfeiriadau.
- 2.3. Dylai datblygwyr, perchnogion a thenantiaid fod yn ymwybodol bod posibilrwydd na fydd gan eu heiddo'r un cod post ag eiddo cyfagos neu sydd eisoes yn bodoli.



2.4. Cyfrifoldeb y Post Brenhinol yw cynnal gwybodaeth am godau post, ac unrhyw newid yn y dyfodol i godau post unigol neu sectorau cod post.

### 3. Enw'r Sir

3.1. Nid yw'r sir yn rhan o unrhyw gyfeiriad post ac felly nid yw newidiadau iddo wedi'u cynnwys o dan God Ymarfer Ffeil Cyfeiriadau Cod Post y Post Brenhinol.

3.2. Roedd siroedd post y Deyrnas Unedig, a elwir yn swyddogol bellach yn hen siroedd post, yn israniadau post a ddefnyddiwyd yn rheolaidd gan y Post Brenhinol tan 1996. Raison d'être y sir bost – yn wahanol i unrhyw fath arall o sir – oedd helpu didoli post drwy alluogi gwahaniaethu rhwng trefi post a oedd yn swnio'n debyg i'w gilydd. Ers 1996 mae hyn wedi'i wneud drwy ddefnyddio cod allanol (hanner cyntaf) y cod post yn lle hynny. Tynnwyd y sir bost o gronfa ddata'r Ffeil Cyfeiriadau Cod Post yn 2000 ac nid yw'n rhan o god ymarfer y Post Brenhinol ar gyfer newid cyfeiriadau.

3.3. Er gwaethaf hyn, gwerthir data sirol yn rheolaidd i gwmnïau, yn ôl pob golwg er mwyn iddynt dacluso eu data cyfeiriadau eu hunain. Gan mai data'r hen siroedd post oedd yr olaf i gael eu defnyddio'n rheolaidd, mae rhai sefydliadau wedi parhau i ddefnyddio'r hen ddata hwn fel rhan o gyfeiriadau post. Am y rheswm hwn, mae sir Clwyd yn ymddangos ar rai eitemau o bost. Yn 2010 cynghorodd y rheoleiddiwr y dylai'r Post Brenhinol roi'r gorau i gyflenwi data sirol yn gyfan gwbl a chyflwynwyd amserlen i hyn ddigwydd rhwng 2013 a 2016.

### 4. Hysbysu am newid i wybodaeth cyfeiriadau i bartneriaid mewnol ac allanol

4.1. Ar ôl cwblhau cais Enwi Strydoedd a Rhifo, bydd y Cyngor yn cynnwys y partneriaid canlynol fel rhan o'r broses hysbysu ffurfiol:

- Y Cynghorydd Sir Lleol perthnasol
- Y Cyngor Dinas, Tref neu Gymuned perthnasol
- Gwasanaethau Mewnol y Cyngor
- Gwasanaeth Ambiwylans Cymru,
- Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru,
- Y Post Brenhinol,
- Cyflenwyr Trydan a Nwy Cyfredol sy'n Gweithredu yn yr Ardal
- Dŵr Cymru ac / neu Dŵr Dyffryn Dyfrdwy

- Yr Arolwg Ordnans,
- Y Gofrestrfa Tir.

## 5. Rhestr Cyfeiriadau Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych

- 5.1. Mae dwy brif ffynhonnell o wybodaeth am gyfeiriadau yn cael eu defnyddio ar draws y DU – y Rhestr Cyfeiriadau ac Enwau Strydoedd Cenedlaethol a Ffeil Cyfeiriadau Post y Post Brenhinol.
- 5.2. Fel awdurdod lleol, mae'n rhaid i'r Cyngor, dan Gytundeb Mapio'r Sector Cyhoeddus, reoli a chynnal Rhestr Cyfeiriadau ac Enwau Strydoedd Corfforaethol gan ddarparu diweddariadau ar newidiadau'n rheolaidd i ganolfan ganolog y Rhestr Cyfeiriadau ac Enwau Strydoedd Cenedlaethol priodol.
- 5.3. Mae'r Rhestr Cyfeiriadau ac Enwau Strydoedd Corfforaethol, sy'n cael eu rheoli a'u cynnal gan bob awdurdod lleol ac unedol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban, yw conglfaen datblygu parhaus a darparu rhaglen isadeiledd cyfeiriadau cenedlaethol ar gyfer Prydain.
- 5.4. Rheolir y Rhestr Cyfeiriadau ac Enwau Strydoedd Cenedlaethol gan GeoPlace (partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig y sector cyhoeddus rhwng y Gymdeithas Llywodraeth Leol a'r Arolwg Ordnans) sy'n darparu ffynonellau wedi'u diweddaru a therfynol o gyfeiriadau gofodol a data strydoedd sy'n eiddo i'r cyhoedd.
- 5.5. Cydnabyddir y Rhestrau Cenedlaethol fel elfennau hanfodol ar gyfer datblygu cofrestr gynhwysfawr o wybodaeth gywir am gyfeiriadau a strydoedd ar gyfer y sectorau cyhoeddus a phreifat.
- 5.6. Mae'r Rhestrau Corfforaethol yn cydymffurfio â Safon Brydeinig BS7666 – Setiau Data Gofodol ar gyfer Cyfeirio Daearyddol Rhan 1 a 2 a Chanllawiau'r Confensiwn Mewnfwydo Data Cenedlaethol fel y cytunwyd gan yr awdurdodau cynnal dynodedig.
- 5.7. Dyluniwyd ffeil cyfeiriadau cod post (PAF) y Post Brenhinol yn benodol i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau dosbarthu post ac nid yw'r Post Brenhinol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd am y defnydd o PAF at unrhyw ddiben neu ddefnydd arall arfaethedig y tu hwnt i ddarparu'r gwasanaethau hyn.
- 5.8. Bwriad y Rhestr Cyfeiriadau Corfforaethol yw hwyluso cyflwyno pob gwasanaeth yn gywir ac mae'n seiliedig ar leoliad daearyddol

gwirioneddol yr eiddo, ond mae hefyd yn cynnwys y dref bost a ddefnyddir gan y Post Brenhinol.

- 5.9. Mae'r Rhestr Gyfeiriadau Gorfforaethol yn cynnwys gwrthrychau ychwanegol nad ydynt yn ymwneud â phost fel tir datblygu ac amaethyddol, coetiroedd, parciau, eglwysi, neuaddau, toiledau cyhoeddus ac ati nad ydynt wedi'u cynnwys yn y PAF.
- 5.10. Rhestr Gyfeiriadau Gorfforaethol y Cyngor yw'r brif gofrestr gyfeiriadau a ddefnyddir wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor.
- 5.11. Mae'n bwysig cydnabod bod un cyfeiriad pendant sy'n cael ei ddefnyddio gan yr holl wasanaethau wrth gysylltu â thrigolion a busnesau, ac ar gyfer ein cwsmeriaid drwy gyfrwng y wefan. Bydd cael un system gyfeiriadau derfynol yn caniatáu canfod pob manylyn am eiddo neu ddarn o dir o holl systemau cefn swyddfa'r Cyngor ac yn caniatáu ymateb wedi'i gydgyssylltu i ymholiadau cwsmeriaid.
- 5.12. Mae integreiddio'r brif gronfa ddata gyfeiriadau â systemau mewnol eraill yn osgoi dyblygu data a chynnal data ac yn caniatáu cyfnewid gwybodaeth mewn modd haws a mwy cywir rhwng adrannau, awdurdodau ac asiantaethau.
- 5.13. Mae darparu gwybodaeth gywir ar gyfeiriadau'n hanfodol bwysig i wasanaethau brys lleol.
- 5.14. Rhaid i bob system cronfa ddata newydd y mae'r awdurdod yn eu caffael neu eu datblygu sy'n defnyddio data cyfeiriad gydymffurfio â BS7666 a gallu derbyn diweddariadau LLPG yn llwyddiannus.

## **Adran E: Taliadau ar gyfer Gwasanaethau Rhifo Eiddo**

1. Codir taliadau am rifo eiddo newydd gan gynnwys eiddo ar strydoedd newydd ac eiddo mewnlenni. Yn yr achos hwn, codir y taliadau ar y datblygwr.
2. Bydd taliadau hefyd yn cael eu codi am newidiadau i rifau presennol a newidiadau i enwau eiddo presennol oni bai fod eithriad. Yn yr achos hwn, codir y taliadau ar berchennog yr eiddo.
3. Bydd perchnogion eiddo wedi'u heithrio rhag talu am newid rhif neu enw eu heiddo sy'n ofynnol i gynorthwyo'r Gwasanaethau Brys i nodi a dod o hyd i'r eiddo.

## **Adran F: Gosod placiau enwau strydoedd**

1. Dylid gosod placiau enwau strydoedd mor agos â phosibl at gorneli strydoedd, fel bod modd i yrwyrr a cherddwyr eu darllen. Fel rheol, dylai placiau enw fod o fewn 3m i groesffordd y llinellau palmant, ond lle nad yw hyn yn ymarferol, gellid amrywio'r pellter am hyd at uchafswm o 6m.
2. Dylid gosod placiau enwau strydoedd fel bod ymyl isaf y plac tua 1m uwchben y ddaear mewn safleoedd lle maent yn annhebygol o gael eu cuddio gan gerddwyr neu gerbydau ac am oddeutu 2.5m lle mae rhwystr yn broblem. Ni ddylent fyth fod yn is na 600mm nac yn uwch na 3.6m.
3. Fel arfer, dylid gosod placiau enwau ar gornel pob stryd. Ar groesffyrdd llai, yn enwedig mewn ardaloedd preswyl, gallai un plac ar bob ochr i'r stryd wedi eu gosod yr ochr bellaf i draffig sy'n gadael y ffordd fod yn ddigonol, ac eithrio pan fo enw'r ffordd yn newid neu os credir y byddai paragraff 8 yn berthnasol.
4. Ar gyffyrdd siâp T dylid gosod prif blac enw'r stryd yn uniongyrchol gyferbyn â thraffig sy'n nesáu o'r ffordd ymyl.
5. Os yw enw'r stryd yn newid mewn man ar wahân i groesffordd, dylid arddangos y ddau enw yn y man lle mae'r newid yn digwydd ac mae llawer o Awdurdodau Lleol wedi penderfynu ei bod yn ddefnyddiol i gynnwys saethau i nodi'n glir at ba rannau o'r stryd y mae'r enw'n cyfeirio atynt.
6. Ar ddarnau syth o ffyrdd heb groesffyrdd, dylid ailadrodd placiau enwau o fewn pellter rhesymol gan roi blaenoriaeth i lefydd fel gorsafoedd bysiau

a threnau, a gyferbyn â mynedfeydd i safleoedd a ddefnyddir yn rheolaidd fel meysydd parcio.

7. Os yw dwy stryd yn fforchio ar letraws o gyffordd gyffredin gyda thrydedd stryd, gall placiau ar fynegbyst fod yn ddefnyddiol, cyn belled nad ydynt yn cuddio unrhyw arwyddion traffig.
8. Lle y byddai'n rhesymol i ddisgwyl, er enghraifft bob hyn a hyn ar ddarnau syth o ffordd neu ar groesffyrdd neu gyffyrdd siâp T, mae llawer o Awdurdodau Lleol wedi penderfynu ei bod yn ddefnyddiol i ymgorffori, ar y plac enw, gwybodaeth sy'n nodi rhifau'r stryd bob ochr i'r groesffordd.
9. Pan fo hynny'n ymarferol, dylid gosod placiau enwau strydoedd ar waliau, adeiladau neu adeileddau ffiniol eraill ar ochr gefn y llwybr troed. Dylif ond gosod ar bolion neu ar fynegbyst os nad fyddai gosod yn y modd arferol yn gwneud y plac amlwg (e.e. lle mae mynedfa gul i ffordd ymyl bwysig neu dan yr amgylchiadau eithriadol a nodwyd ym mharagraff 7 uchod, neu lle y bydd yn cael ei guddio'n aml gan symudiadau cerddwyr ac na ellir ei osod ar yr uchder o 2.5m).
10. Dylid gosod y placiau enwau gan sicrhau fod o leiaf 300mm o ofod clir i bob cyfeiriad rhyngddynt ac unrhyw hysbysiadau, hysbysebion neu ddeunydd printiedig neu ysgrifenedig arall. Lle bo hynny'n bosibl, dylid darparu mwy o ofod. Dylid cymryd gofal i sicrhau nad yw'r olygfa o blaciau enwau yn cael ei rhwystro gan goed neu dyfiant arall.
11. Lle bo modd, dylid gosod placiau enwau fel eu bod yn cael eu goleuo gan lampau stryd, yn enwedig ar gyffyrdd pwysig, cyn belled bod yn dal modd i gerbydau eu gweld ar y brif ffordd.
12. Gellir arddangos enwau strydoedd mewn paneli ar folardiau sy'n wynebu troedffyrdd, yn ychwanegol i, ond nid yn lle, placiau enwau eraill.

## **Adran G: Adolygiad polisi**

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob tair blynedd neu'n gynharach os oes angen newid mawr yn y broses yn sgil cyflwyno deddfwriaeth newydd, er enghraifft. Bydd ffioedd yn cael eu hadolygu'n flynyddol yn ystod proses y Cyngor o osod cyllideb a bydd yn derbyn cyhoeddusrwydd trwy sianelau cyfathrebu arferol y Cyngor gan gynnwys y wefan.

## **Adran I: Cysylltiadau defnyddiol**

Gallwch gysylltu â'r swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd drwy'r ffyrdd a ganlyn

Gwefan <https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswylwr/rheoliadau-cynllunio-ac-adeiladu/enwi-strydoedd-a-rhifo.aspx>

E-bost [llprequests@denbighshire.gov.uk](mailto:llprequests@denbighshire.gov.uk)

Ffôn 01824706000 A gofyn i siarad â'r Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd.

**RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PWYLLGOR LLYWIO'R IAITH GYMRAEG**

<b>Cyfarfod</b>	<b>Eitem (disgrifiad / teitl)</b>		<b>Pwrpas yr Adroddiad</b>	<b>Aelod Arweiniol a Swyddog Cyswllt</b>
<b>12 Tachwedd 2019</b>	1	Eitem Sefydlog: Diweddariad Eisteddfod yr Urdd	Derbyn diweddariad ar gynnydd gydag Eisteddfod yr Urdd	Gareth Watson
	2	Aelod Arweiniol a Swyddog Cyswllt	Cael cyflwyniad ar ochr Fusnes Safonau'r Gymraeg	Mike Horrocks

**Nodyn i Swyddogion - Dyddiadau Cau Adroddiadau**

<i>Cyfarfod</i>	<i>Dyddiad Cau</i>	<i>Cyfarfod</i>	<i>Dyddiad Cau</i>	<i>Cyfarfod</i>	<i>Dyddiad Cau</i>
<i>Gorffennaf</i>	<b>25 Mehefin</b>	<i>Tachwedd</i>	<b>29 Hydref</b>		

**EITEMAU'R DYFODOL**

<b>Cyfarfod</b>	<b>Eitem (disgrifiad / teitl)</b>	<b>Pwrpas yr Adroddiad</b>	<b>Awdur / Swyddog Cyswllt</b>

Diweddarwyd 01/04/19 KEJ

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag